Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Bodorgan
Nos Fawrth, 16 Mai, 2017

Presennol: G. Looms, A M Hughes, D G Jones, G. Evans, G O Davies, M. Davies, S Williams, Cyng P Rogers, Cyng. B. Owen

Croesawodd y Cadeirydd y ddau Gynghorydd Sir i'r cyfarfod a'i llongyfarch ar gael ei hethol yn dilyn etholiadau mis Mai, 2017.

- **Cadarnhau Cadeirydd ac Is-gadeirydd am 2017/18** – G Looms Cadierydd, D G Jones Is-gadeirydd
- **Derbyn y Côd Ymddygiad am 2017/2018 –** derbyniwyd ac arwyddwyd
- **Derbyn y 'Standing Orders' am 2017/18** – derbyniwyd ac arwyddwyd

- **Adolygu'r Is-baneli am 2017/18**
  Rhandiroedd – J Hughes, S. Williams
  Llwybrau – G O Davies, S Williams
  Eglwys (Charity Trust) – G. Burns, J Hughes
  Cyllid – M. Davies, D G Jones
  Cynllunio – M Davies, D G Jones
  Fynwent – G . Hughes, J Hughes
  Llywodraethwyr Ysgol Bodorgan / Bro Rhosyr – A M Hughes

  Yn dilyn yr Etholiad bu 1 sedd wag yn dilyn ymddiswyddiad Will Griffiths ar y Cyngor, hysbyswyd y rhybudd ' Co-option' ac yn dilyn hyn death un llythyr cais i mewn gan Alwyn Rowlands, cynnigwyd ethol AR gan DGJ ac eilwyd hyn gan G.O.D.

Eitem		Gweithredu
1.	**Ymddiheuriadau:** Gwen Burns	
2.	**Datgan diddordeb** – AMH a DGJ – Dogfennaeth Spirit of 2012 – cwblhawyd y ffurflenni datgan diddordeb.	

3.	**Cofnodion Cyfarfod mis Mawrth 2017 – cymeradwyo / materion yn codi.** Fflatiau Bethel – Cadeirydd wedi bod mewn cyfarfod gyda Swyddog Hiliaeth, rhoddwyd gwybodaeth o gymorth iddo. Bu digwyddiad ar t safle ar t 16 o Fai gyda'r tenant sy'n byw yn y fflat uchaf, yn yn broblem 'on going' oherwydd cyffuriau ac alcohol. Yn rwystredig I hyn nid oes gan yr Heddlu bwerau I wneud llawer, mae'r Heddlu wedi ymweld a'r safle ar benwythnosau oherwydd bod problem alcohol a chyffuriau yn y fflatiau hyn, ni ellir yr Heddlu gynnal cyrch oherwydd nid oes digon o dystiolaeth, mae gan yr Heddlu restr o enwau'r pobl a rhifau'r ceir sydd yn mynd yno. Buasai'r Cadeirydd yn ddiolchgar os buasai'r Cynghorydd Sir yn gallu dilyn hyn I fynu gyda'r Cyngor Sir / Heddlu. Mae'r Cynghorydd Rogers wedi delio gyda'r sefyllfa ac wedi cael trafodaethau gyda'r Heddlu / Cyngor Sir, Cyng, B. Owen yn ymwybodol o'r pryderon yma. AMH – siomedig iawn gyda'r ffordd mae'r Cyngo Sir a'r Heddlu wedi delio gyda'r mater yma. Cyng. B Owen – pam na ellir rhoi camera ar y safle os yw'r Heddlu a'r Cyngor Sir yn ymwybodol o'r trafferthion sydd yn y fflatiau yma. Mae gan yr Awdurdod bolisi 'rhybudd dadfeddiannau'. Cynghorydd P Rogers am edrych fewn I'r sefyllfa a gadael I Cynghorydd B Owen gael y wybodaeth o beth mae'n drafod gyda' Awdurod a'r Heddlu.	Cyng., P Rogers
	Rhandiroedd – taliad drwy'r banc Llyr Davies – angen edrych fyny os yw'r taliad wedi cael ei dalu drwy'r banc.	Clerc
	Lledaenu'r lon yn Bethel – mae'r mater o 'land owenership' wedi cael ei ddatrys ac nawr mae'r Awdurdod yn dweud nad oes arian I wneud y gwaith. Cyng. P Rogers a Cyng. B Owen am drafod ymhellach gyda'r Awdurod a phwysleisio bod lledaenu'r lon yma yn fater o ddilogelwch.	
	Cyflwr y lon ger Tan Lan – Cyng. P Rogers wedi bod yn ymweld a'r safle ac yn cydnabod bod y lon yn dirywio, angen I'r adran drefnidiaeth ddod allan i weld cyflwr y lon. Cyng. P Rogers I ddilyn hyn I fynyu.	Cyng. P Rogers
	Giat – Plot Gareth Evans – erbyn hyn mae dwy giat wedi gosod, Aelod o'r CC I fynd I weld Tim Bowie I drafod y mater, GL a SW wedi cynnig I fynd I weld y giataiu a thrafod gyda Stad Bodorgan.	
	Carafan, Mailtraeth – Mae'r garafan dal ar y safle, dim byd wedi cael ei wneud gan yr adran gynllunio am hyn,	

	Ffermwyr Ifanc Ynys Môn – GL wedi derbyn llythyr o ddiolch am rodd ariannol gan y Cyngor cymuned. Ambilwans Awyr Cymru – llythyr o ddiolch wedi dderbyn. Cysgodwr Bws, Morawelon, Malltraeth – buasai'r gost rhwng £10,000 a £12,000 I osod un ar y safle, mae angen edrych ar y sefyllfa a gweld be allith gael ei wneud. Bu cwyn flynyddoedd yn ôl parthed pobl yn cam ddefnyddio'r cysgod bws. Cyng. B Owen / Cyng. P Rogers am edrych mewn I'r mater yma. Safle Wê Cyngor Bodorgan – mae'r clerc wedi diweddaru Neil Summers y technegydd gyda enwa ayyb yn dilyn yr etholiadau, bydd safle'r wê yn fyw o ddechrau mis Mehefin. Derbyniwyd y cofnodion yn gwyri gan AMH gyda DGJ yn eilio.	Cyng BO/PR
4	**Talladau / Payments :** cyflog y Clerc £260 (dau fis), Dwr Cymru £40.83, Stad Bodorgan £1,612.75, **Derbyniadau / Receipts:** W O & M Williams (claddu llwch) £200, R Hughes a'I Fab £160 (gosod carreg newydd Lis Griffiths) £450 archeb bedd newydd (W J Evans).	
5	**Gohebaeth gan Cyngor Sir / IOACC correspondence** Polisi Ar Enwi a Rhifo Strydoedd a Thai – dilyn e bost ar enwi lon yn Malltraeth – DGJ am rhoi'r wybodaeth I AJ Adolygu'r Cynllun Gwellau Hawliau Tramwy	
6	**Gohebiaeth Asiantaethau Allanol / Correspondence from outside agencies – er gwybodaeth** John Roberts, Awdlt – llythur gwybodaeth o roi'r cyfrifon mewn – 9.6.17 Un Llais Cymru – rhybudd o gyarfod 30.3.2017 – wedi bod cyn y cyfarfod yma. Canllaw'r Cynghorydd Da ar gyfer Cynghorwyr Tref a Chymuned gan Llywodraeth Cymru. Play for Wales – rhifyn 48, Gwanwyn 2017	
7	**Ceisiadau Cynllunio / Planning Applications** **15C223** – cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu yn 6 Bryn Gwna, Bethel. Nid oedd dim sylwadau I wneud I'r cais yma.	

8.	**Penderfyniadau Cynllunio / Planning Decisions – er gwybodaeth** **15C108B** – Dryll, Bodorgan – Caniatad / Granted **15C120E/MIN** – Porth Hurion, The Drive, Malltraeth – Caniatad / Granted	
9	**Adborth gan y Cynghorwyr Sir / Feedback from the County Councillors** Cyng, B. Owen – mae'n amser prysur yn sefydlu y strwythurau yn dilyn yr etholiadau. Cyng. P Rogers – mae pethau reit bryderus ar hyn o bryd oherwydd I nifer o aelodau o'r blaid annibynnol fynd at blaid arall. Cwynion wedi dod I sylw bod y gweithwyr yn y safleodd bledleisho wedi dweud wrth bobl bod rhaid iddynt bleidleisho I dri person, nid oedd hyn yn wir, y gwirionedd oedd gellid pleidleisio I fynu hyd at 3 ymgeiswr. GL a DGJ am anfon llythyr o gwyn I Dr Gwynne Jones ac I'r comisiynnydd etholiadau.	
10	**Unrhyw Fater Arall** GE – 6 Morawelon, Malltraeth, mae ci y preswylwyr yma, wedi ymosod yn frwnt iawn ar gi arall ac roedd cost y milfeddyg yn £600, pit bull oedd y ci a ymosododd, mae'r Heddlu yn ymwybodol o'r digwyddiad yma, ci perchenog siop kebab Brynsiencyn oedd ac nid yw'r person yma yn byw yn 6 Morawelon, erbyn hyn mae perchenog y ci a'r ci wedi symud allan o 6 Morawelon. Yn gyfreithiol nid yw cwn I fod mewn tai cyngor. Cwt Glas, Malltraeth (DGJ) – buasai'r safle yma yn gallu cael ei dorri eto erbyn hyn, blwyddyn yn ôl cafodd ei dorri ddiwethaf, gofynwyd gan DGJ os oedd y CC yn cytuno I Alwyn Rowlands wneud y gwaith yma. Cytunodd yr aelodau I hyn. Joiners, Malltraeth – mae'r lamp / bocs wedi cael ei dynnu ac nawr dim ond wedi ei guddio gyda bord, mae hyn yn beryglus iawn. Llecyn Chwarae, Ysgol Bodorgan – mae'r gwaith atgyweirio slats wedi cael ei wneud yn rhad ac am ddim gan Alwyn Rownads, diolchydd yr aeldoau I AR am wneud y gwaith yma. MD – cynnig bo'r cyngor yn anfon llythyr o ddiolch I Will Griffiths am ei gyfraniad fel Cynghorydd Cymuned Bodorgan dros y blynyddoedd.	Clerc I weithredu

	Hermon, problemau parcio – mae'r broblem yma yn un barhaus. Llwybr – mae stepiau ar y llwybr ac mae angen rheiliau llaw. Cyng P Rogers i ddilyn hyn fynu.	Cyng. P Rogers
11.	**Datganiad Derbyn Swydd** – pawb wedi cwblhau ac arwyddo. Anfon y Datganiad i Gwen Burns ac iddi i'w arwyddo erbyn cyfafod nesaf.	Clerc
12	**Dyddiad Cyfarfod Nesaf : 18 / 07 / 2017 am 7yh.**	